

DOGFEN 2

DC/EM/05186/19: Nodyn Cyfarfod - Gweinidog a Chomisiynydd y Gymraeg

11 Mawrth 2019, Swyddfa'r Gweinidog, CP1

Yn bresennol:

Eluned Morgan AC (Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes)

[Enw Swyddog]

[Enw Swyddog]

Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg)

[Enw Swyddog]

[Enw Swyddog]

Aled Roberts (Darpar Gomisiynydd y Gymraeg)

1. Nododd y Gweinidog ar ddechrau'r cyfarfod mai hwn oedd cyfarfod olaf Meri fel Comisiynydd y Gymraeg. Diolchodd y Gweinidog iddi am ei gwaith fel Comisiynydd dros y 7 mlynedd diwethaf ac am ei chefnogaeth. Dymunodd y Gweinidog pob lwc i'r Comisiynydd yn y dyfodol. Diolchodd y Comisiynydd i'r Gweinidog.

2. Cyllid 2019-2020 (LIC)

- Nododd y Gweinidog mai £3.051m yw cyllid y Comisiynydd am 2019-20, a bod y swm hynny wedi cael ei bleidleisio trwy'r Cynulliad. Cadarnhaodd y Gweinidog bod hi'n dal i aros am gadarnhad ynglŷn â thaliadau ychwanegol i gyrff i dalu am y cynnydd mewn cyfraddau pensiwn sydd wedi cael eu cyflwyno oherwydd penderfyniad Trysorlys Llywodraeth y DU. Dywedodd y Gweinidog bod Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid, wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig diwedd wythnos diwethaf yn nodi y bydd Aelodau'r Cabinet yn clywed yn fuan beth yw'r dyraniadau ychwanegol ar gyfer y gyrff o fewn eu portffolios. Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y Comisiynydd unwaith i'r cyllid gael ei gadarnhau.
- Nododd *[Enw Swyddog]* bod cynlluniau ariannol y Comisiynydd fel mae'n sefyll yn arwain at erydiad yn yr arian wrth gefn. Yn hanesyddol mae cytundeb wedi bod rhwng y Llywodraeth a'r Comisiynydd i ganiatáu'r Comisiynydd i drosglwyddo £250k o un flwyddyn ariannol i'r llall - er mwyn talu am wariant annisgwyl a hefyd i ariannu achosion cyfreithiol posib. Dywedodd y Gweinidog mai polisi canolog y Llywodraeth bellach yw ddim i ganiatâi i gyrff cyhoeddus drosglwyddo arian wrth gefn drosodd o un flwyddyn i'n nall, ac y byddai'r Llywodraeth yn ystyried ceisiadau am gyllid ychwanegol pe bai'r arian wrth gefn yn isel a bod angen cyllido achosion cyfreithiol. Derbyniodd y Gweinidog fodd bynnag y gallai sefyllfa godi lle byddai angen i'r Comisiynydd ariannu achos llys yn erbyn y Llywodraeth, ac yn hynny o beth y byddai'n amhriodol i'r Comisiynydd orfod ofyn i'r Llywodraeth am gyllid i ariannu hynny. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n

ystyried hynny ac ystyried sylwadau'r Swyddfa Archwilio am gyllid wrth gefn y Comisiynydd.

(Pwynt Gweithredu: swyddogion i ystyried y polisi o ran arian wrth gefn y Comisiynydd)

- Holodd [*Enw Swyddog*] os fyddai'r Llywodraeth yn ystyried trosglwyddo unrhyw danwariant o 18/19 i'r Comisiynydd cyn diwedd y mis er mwyn rhoi hwb i'r cyllid wrth gefn i atal erydiad pellach. Dywedodd [*Enw Swyddog*] bod cyllideb 18/19 wedi'i glustnodi eisoes.

3. Cytundeb Fframwaith

- Nododd y Gweinidog bod cynnwys y Cytundeb Fframwaith presennol wedi dyddio ac felly bod hi'n amserol ail edrych ar y Cytundeb nawr bod Aled yn dechrau fel Comisiynydd ar 1 Ebrill.
- Holodd [*Enw Swyddog*] beth fyddai natur y cytundeb hwnnw. Dywedodd y Gweinidog bod hi'n awyddus i gael Cytundeb mwy manwl na'r un blaenorol, sy'n gosod trefn ar faterion gweithredol fel amllder cyfarfodydd a chyfathrebu a hefyd yn cynnig eglurder ynglŷn â pha gorff sy'n arwain ar ffrydiau gwaith penodol.
- Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Llywodraeth yn drafftio Cytundeb Fframwaith ddrafft wedyn yn trafod y drafft hwnnw gydag Aled Roberts a thîm reoli'r Comisiynydd cyn diwedd Mawrth. Dywedodd y Gweinidog bod hi'n awyddus i weld cydweithio yn agosach rhwng y ddau gorff o ran gweithio tuag at targedau Cymraeg 2050, a gofynnodd i swyddogion drefnu diwrnod cwrdd i ffwrdd rhwng y ddau gorff. Cadarnhaodd [*Enw Swyddog*] fod hi'n hapus i drefnu diwrnod cwrdd i ffwrdd ar y cyd yn ystod mis Mai/Mehefin ac y byddai'n trafod y trefniadau hynny gydag Aled.

4. Trefniadau trosiannol 1 Ebrill 2019

- Dywedodd Meri ac Aled bod y cyfnod trosiannol yn profi i fod yn ddefnyddiol a bod Aled yn defnyddio'r amser i gysgodi Meri, ac i ddod i adnabod staff a rhanddeilaid.
- Nododd Aled ei fod wedi cyfarfod gydag Academi Wales ac yn ystyried cynnig ganddynt i ddarparu hyfforddiant iddo ef yn bersonol ac i swyddogion y corff.

5. Gorfodi safonau (CyG)

- Nododd Aled y byddai'n yn ystyried papur ar orfodi gyda golwg ar adolygu trefniadau mewnol ar orfodi safonau.

6. Gofynion casglu data defnydd (CyG)

- Dywedodd y Gweinidog bod hi wedi dod yn amlwg iddi hi wrth baratoi i'r Pwyllgor craffu bod angen gwella'r data sydd gennym wrth gyrff am ddefnydd gwasanaethau.

- Dywedodd *[Enw Swyddog]* bod y Comisiynydd yn cynyddu'r gwaith y maent yn gwneud yn y maes hwn, a'u bod wedi:
 - Cynnal gweithdy gyda chyrrff i adnabod pa ddata defnydd maent yn casglu a pa ddata byddai modd iddynt gasglu
 - Ysgrifennu at gyrff unigol i ofyn pa ddata maent yn casglu
- Nod y gwaith hwn yw adnabod nifer o gategorïau o ddata cymharol y byddai modd i bob corff ddewis. Nododd *[Enw Swyddog]* nad oes modd gorfodi cyrrff i gasglu data defnydd gan nad oedd safonau yn eu lle ar gyfer hynny.
- Dywedodd y Gweinidog bod hi'n falch i glywed bod y gwaith hwn yn digwydd a bod hi'n awyddus i weld mwy o ddata cyson am ddefnydd yn yr Adroddiad Blynyddol.

7. Materion Llywodraethiant (CyG)

- Cadarnhaodd y gweinidog bod hi'n bwriadu penodi dau Aelod i Banel Cynghori'r Comisiynydd fel bod gan Aled Banel llawn i'w gynghori.
- Holodd Meri Huws beth oedd tu ôl darn o'r papur tystiolaeth i'r Pwyllgor a oedd yn feirniadol o drefniadau llywodraethiant y Comisiynydd. Nododd y Gweinidog nad beirniadaeth o drefniadau'r Comisiynydd oedd hwnnw, ond yn hytrach beirniadaeth o'r egwyddor o gorfforaeth un-dyn ("corporate sole"). Roedd cynnwys y Papur Tystiolaeth i'r Pwyllgor yn gyson gyda cynnwys adroddiad gan Dy'r Arglwyddi am strwythurau cyrrff cyhoeddus.

8. Cod Ymarfer Rheoliadau Rhif 1: Diweddariad (LIC)

- Dywedodd y Gweinidog bod hi'n awyddus bod arddull y Cod Ymarfer yn gyfeillgar ac yn hawdd i'w darllen, ac yn nodi'r gofynion cyfreithiol yn glir. Nododd *[Enw Swyddog]* mai swyddogion iaith cyrrff yw cynulleidfa darged Cod Ymarfer felly eu bod yn gyfarwydd a delio gyda'r safonau, ac nid ydynt yn darllen y ddogfen heb wybodaeth gefndirol.
- Dywedodd y Gweinidog byddai ateb llawn yn dilyn yn fuan wedi iddi ystyried y cyngor cyfreithiol yn llawn, ac y bydd swyddogion mewn cysylltiad i drefnu cyfarfod i drafod rhai materion.

9. Ystadegau am y Gymraeg a gyhoeddwyd ar 15 Ionawr 2019 (Arolwg Poblogaeth Flynyddol yr ONS)

- Nododd y Gweinidog bod yr ystadegau wedi cael eu cyhoeddi ar 15 Ionawr a bod yr ystadegau o ran niferoedd y siaradwyr yn galonogol iawn. Cadarnhaodd y Comisiynydd bod hi'n ymwybodol o'r data hynny.